

# **Cyngor Cymuned Llanycil.**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Ionawr 12fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (Cadeirydd), Euros Puw, Geraint Jones, Gwilym Davies, Arwel Davies, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Rhys Richards a Jean Roberts

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### **Clirio ffosydd.**

Cafwyd cadarnhad bod y ffosydd wedi cael eu archwilio a'u clirio. Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r adran briffyrdd i ofyn iddynt ail ymweld â safleoedd Pant Rhedydd a Pont Ffrydan gan fod y problemau yn parhau yno. Gofynnwyd hefyd iddynt gymryd golwg ar y ffosydd a gwteri ar riwiau Llwynhir a Cyffdy ac ar y ffordd ger Plas Madog, Parc.

### **Pont droed Maes Mathew, ger Blaen Cwm Uchaf, Parc.**

Cafwyd cadarnhad bod swyddogion y Parc Cenedlaethol wedi trwsio'r bont.

### **Biniau Halen.**

Cafwyd cadarnhad pellach gan Gyngor Gwynedd mae penderfyniad y Cabinet ym mis Rhagfyr 2014 oedd codi ffi am finiau halen. Cafwyd cadarnhad gan y Cyng. Elwyn Edwards ei fod am fynychu cyfarfod gyda'r deilydd portffolio i drafod y mater ymhellach. Mynegodd y cynghorwyr eu pryder eto am ddiogelwch y cyhoedd os bydd y gwasanaeth yn cael ei ddileu ar ôl mis Mawrth 2016. Cytunwyd ei fod yn anrhesymol i'r Cyngor Cymuned godi'r Praesept mor sylweddol i allu talu am y gwasanaeth gan fod y trigolion lleol eisoes yn cyfrannu am y gwasanaethau yma trwy eu trethi.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

- i) Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - Gwybodaeth am eu cyfarfodydd cyhoeddus 'Siawns i ddeud eich deud am blismona'
- ii) Cyngor Cymuned Clynnog Fawr - Derbyniwyd e-bost yn gofyn be oedd barn y Cyngor Cymuned am y newidiadau i'r gwasanaeth biniau halen. Gofynnwyd i'r clerc yrru ymateb yn nol i'r Cyngor.
- iv) Un Llais Cymru - Gwahoddiad i arddwesti Palas Buckingham ym mis Mai 2016.
- v) Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd llythyr yn ein cyfeirio at eu 'Hadolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru' sydd ar gael ar wefan Traffig Cymru.
- vi) Parc Cenedlaethol Cymru – Llythyr yn ein cynghori bod y canllawiau cynllunio 'Asesu Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd' ar ffurf draft ar gael ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## **Materion Ariannol.**

### **Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i diwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

### **Cyllideb a Praesept 2016-17**

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2016-17 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i beidio codi'r Praesept a'i gadw ar £3,300.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- i) Clerc (Cyflog Hyd – Rhag)
- ii) Treth TWE

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Ambiwylans Awyr, Dawns i Bawb, Cyngor ar Bopeth ac Sion Emlyn Williams-Jones. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

### **Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/108A – Codi adeilad amaethyddol. Gwern Biseg, Maes y Waen.

NP5/72/235A – Adeiladu stabl a newid defnydd tir. Tyn y Gornel, Frongoch.

NP5/72/234 - Cynllun trydan dwr, ger Weirglodd Ddu, Capel Celyn.

Gan fod y Parc Cenedlaethol eisiau ymateb cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod ceisiadau Gwern Biseg a Tyn y Gornel a chytunwyd i'w cefnogi. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi'r cais cynllun trydan dwr, ger Weirglodd Ddu, Capel Celyn.

Cafwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-

NP5/72/108A – Codi adeilad amaethyddol. Gwern Biseg, Maes y Waen.

### **Materion Lleol.**

Gwaith i linell ffon yn Llidiardau.

Roedd gweithlu Open Reach wedi creu dryswch yn yr ardal wrth osod arwyddion cau'r ffordd yn Rhydychaf ac nid yn Llidiardau. Roedd y clerc wedi cael cadarnhad y byddai'r ffordd ar gau ar y 15/01/16 am wythnos.

Roedd trefniadau mewn lle i adael y bws ysgol a cherbydau brys basio os byddai angen. Roedd unrhyw drafnidiaeth arall yn cael eu gyrru ar hyd y ffordd o Ffridd Isaf i Groeslon.

# Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 8fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.